Ymgyrch Cewynnau Go Iawn
Clecs Cewynnau
Mawrth 2009

Yn y rhifyn hwn:

DVD newydd
Wythnos Cewynnau Go Iawn 2009
Tudalennau gwe cewynnau go iawn awdurdodau lleol
Asiantau a Gwirfoddolwyr
Digwyddiadau
Cewynnau newydd
Cysylltwch â ni

DVD newydd

Erbyn hyn, mae gyda ni DVD Ymgyrch Cewynnau Go Iawn ar ôl diweddaru ac ail-olygu'r ffilm wreiddiol a gynhyrchwyd gan Gymru Gynaliadwy. Mae'r DVD yn adnodd gwych i'w ddangos i rieni mewn anerchiad am gewynnau, dosbarth crefft magu plant neu glinigau cyn-geni. Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o destunau fel manteision iechyd, pa mor hawdd yw hi i ddefnyddio cewynnau go iawn a'r arbedion ariannol. Hefyd, mae'r ffilm yn dangos ysbyty yn defnyddio cewynnau go iawn ar y wardiau a gwasanaeth golchi cewynnau. Os hoffech chi gael copi o'r DVD neu'n nabod rhywun fyddai'n dymuno cael un, cysylltwch â Sian.

Wythnos Cewynnau Go Iawn 2009

Thema Wythnos Cewynnau Go Iawn eleni yw ££££. Mae arbed arian ar flaen meddyliau pawb ar hyn o bryd felly mae'n amser perffaith i esbonio manteision cost cewynnau golchadwy. Gall cewynnau golchadwy arbed hyd at £500 i deuluoedd ar eu plentyn cyntaf, mwy byth gydag ail neu drydydd plentyn, felly mae angen i ni gyfleu'r neges yma i rieni. Gobeithio gwelwn ni lawer o weithgareddau a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn ystod wythnos cewynnau go iawn (Dydd Llun 27 Ebrill – Dydd Sul 3 Mai) yn cael sylw yn y wasg leol. Y nod, fel o'r blaen, ar gyfer wythnos cewynnau go iawn yw gwneud cymaint o ddigwyddiadau ag y gallwn i gael cymaint o sylw yn y wasg â phosibl.

Mae syniadau ar gyfer digwyddiadau lleol yn cynnwys:

Nappuccino – Bore neu noson goffi anffurfiol yw hyn i rieni ddarganfod mwy am fanteision cewynnau golchadwy. Mae modd ei drefnu mewn unrhyw fan cyfarfod o neuadd canolfan gymuned i gaffe lleol gan ddibynnu ar y gyllideb. Ni ddylai defnyddio caffe lleol gostio unrhyw arian i chi ei drefnu ond cofiwch sicrhau ei bod hi'n iawn i chi ddefnyddio eu lle gyda'r rheolwyr ymlaen llaw. Unwaith mae wedi'i drefnu, byddan nhw'n fwy na bodlon eich helpu i hyrwyddo'r digwyddiadau. Un o'r ffyrdd gorau o wneud hyn yw defnyddio posteri – mae gennym ni stoc o bosteri neu gallwch gynllunio ac argraffu rhai eich hunain. Gwnewch yn siŵr nad oes digwyddiadau eraill fydd yn gwrthdaro â'ch Nappuccino fel grŵp babi a phlant bach neu grŵp tylino babanod.

Mynydd Cewynnau Go Iawn – Digwyddiad gweledol iawn yw hwn sy'n golygu eich bod yn creu mynydd o gewynnau i ddangos i rieni cymaint o fagiau du y byddan nhw'n eu llenwi gyda chewynnau tafladwy dros y ddwy flynedd a hanner o ddefnyddio cewynnau, 156 bag du i bob babi! Mae'n well cynnal y digwyddiad hwn y tu allan fel eich bod yn dal cymaint o bobl yn mynd heibio ag sy'n bosibl. Mae lle bach prysur â llawer o siopau a dim ceir yn dda ond unwaith eto, cysylltwch â'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf i sicrhau eich bod yn cael cynnal digwyddiad o'r fath yno. Peidiwch ag anghofio hysbyslenni neu faneri gwybodaeth, y bwrdd a llawer o samplau o gewynnau golchadwy a thaflenni!

Cystadleuaeth cynllunio cewyn – Dyma un da i awdurdodau lleol gan eu bod nhw'n gallu cynnwys y wasg leol ynddo. Gofynnwch i blant gynllunio cewyn golchadwy ar gyfer wythnos cewynnau go iawn. Unwaith mae'r cynlluniau i gyd wedi cyrraedd, maen nhw'n cael eu beirniadu a'r un buddugol yn cael ei wneud yn gewyn golchadwy sy'n cael ei ddefnyddio gan y cyngor ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo. Hefyd, gellid brodio logo'r awdurdod lleol yn y cewynnau a defnyddio hynny er mwyn eu hyrwyddo neu'i roi i ffwrdd fel gwobr. Gellir dod o hyd i fodel am y cewyn buddugol a gwahodd y wasg i dynnu lluniau a chwrdd â'r cynllunydd buddugol!

Rhoi cewynnau i ffwrdd – Gallai awdurdodau lleol brynu pecynnau dechrau cewynnau golchadwy i'w rhoi i ffwrdd yn ystod wythnos cewynnau go iawn. Gellir gwneud hyn fel rhan o gystadleuaeth (cwestiwn, efallai, am faint o arian gellir ei arbed trwy ddefnyddio cewynnau golchadwy) gyda gwobrau 1af, 2il a 3ydd. Neu mewn partneriaeth â'r ysbyty lleol, gellid rhoi'r pecynnau dechrau i ffwrdd i'r babanod cyntaf i gael eu geni yn ystod wythnos cewynnau go iawn – stori weledol iawn i'r wasg. Mae pecynnau dechrau'n amrywio o £30 i fyny. Gallai'r ail wobr fod yn ddau gewyn a'r 3edd wobr yn un cewyn. Mae digon o gwmnïau cewynnau golchadwy fydd yn gallu rhoi ambell amcanbris i chi.

Os oes angen mwy o gyngor a gwybodaeth arnoch chi ynglŷn â threfnu digwyddiad, cysylltwch â Sian.

Tudalennau gwe cewynnau go iawn awdurdodau lleol

Diolch yn fawr i bob un o'r awdurdodau lleol sydd wedi rhoi cewynnau golchadwy ar eu gwefan yn ddiweddar am y tro cyntaf neu wedi diweddaru eu tudalen we. Rydyn ni'n agosáu at gael safle pob awdurdod lleol yng Nghymru i gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am gewynnau golchadwy gan ei gwneud yn gynt ac yn haws i rieni ddarganfod pa gyngor sydd ar gael iddynt yn lleol. Mae'r tudalennau newydd yn cynnwys Rhondda Cynon Taf <http://www.rhondda-cynon-taf.gov.uk/stellent/groups/public/documents/hcst/content.hcst?lang=en&textonly=false&xNodeID=2090>, Bro Morgannwg <http://www.valeofglamorgan.gov.uk/living/environment/recycling_and_waste/living_sustainably/real_nappies.aspx>, Caerdydd <http://www.cardiff.gov.uk/content.asp?nav=2870,4049,5290,5419&parent_directory_id=2865&id=7884&d1p1=1> a Thorfaen <http://www.torfaen.gov.uk/EnvironmentAndPlanning/RubbishWasteAndRecycling/RealNappies/Home.aspx>.

Asiantau a Gwirfoddolwyr

Mae gennym ni 2 asiant cewynnau arall yng Nghymru. Mae Kathryn Elsmore yn berchen ar siop Babies@Rhos yn Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn. Mae Kathryn wedi defnyddio cewynnau golchadwy ar ei phlant ei hun ac mae'n gwerthu amrywiaeth o gewynnau yn y siop. info@babiesatrhos.co.uk . Mae Ann-Marie Ablett yn byw yn Sir Gaer ond mae hi'n cyfro Bwrdeistrefi Wrecsam a Sir y Fflint. Mae Ann-Marie yn asiant i'r cwmni 'lolipop' sydd yn gwerthu amrywiaeth o'u cewynnau eu hunain ynghyd â llawer o frandiau eraill hefyd. www.teamlollipop.co.uk

Digwyddiadau

Rwyf wedi bod yn mynychu'r Sioeau Teithiol 'Bumps to Baby' a drefnwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys (BILIP) yn ddiweddar. Mae BILIP yn trefnu'r sioeau teithiol hyn ar draws Powys i ddarparu llawer o wybodaeth a chyngor i rieni am feichiogrwydd, geni a bod yn rhiant. Yn y chwarter diwethaf yma rwyf wedi ymweld â'r Trallwng a Llandrindod ac fel arfer, roedd llawer o ddiddordeb yn y cewynnau. Yn y chwarter nesaf, bydda i yn Aberhonddu ar ddydd Sadwrn 25 Ebrill ac Ystradgynlais ar ddydd Sadwrn 27 Mehefin – gwela'i chi yno!

Cewynnau newydd

Nappeco yw'r cewyn poced organig, heb PUL gwreiddiol. Gan ddefnyddio gwlân organig fel haen allanol ddŵr-wrthiannol, does dim angen yr haen wrth-ddŵr bolyester a ddefnyddir mewn cynlluniau cewynnau poced safonol. Mae wedi'i wneud gan ddefnyddio gwlân Organig 100% ffeltiog cydglöedig a felôr cotwm Organig 100% fel haen fewnol hyfryd o feddal a gwrthfacteria; nid yw'n cynnwys unrhyw ffabrig polyester gan ddefnyddio ffabrigau organig, naturiol yn unig. Mae hyd yn oed yr edau a'r elastig sy'n cael eu defnyddio yn y cewyn yma'n naturiol ac yn organig, dim ond y snapiau poly resin sydd â sail blastig. Gellir prynu ychwanegion ar wahân. Ar gael ar hyn o bryd mewn gwlân naturiol ar y tu allan gyda'r tu mewn yn lliw hufen, lelog neu felyn. Cewyn geni i'r poti yw hwn sy'n ei wneud yn fwy ecogyfeillgar byth gan eich bod yn mynd i ddefnyddio llawer llai o gewynnau golchadwy! Mae'r prisiau'n dechrau o £17.50. www.nappeco.co.uk

Mae cewynnau **Real Easy** yn newydd i Hip Hip Baby ac maen nhw'n gewyn un-darn. Maen nhw'n dod gyda haen wrth-ddŵr PUL sy'n feddal ac yn ymestynnol gyda leinin fflîs i gadw gwlybaniaeth i ffwrdd o groen y babi. Mae'r ddwy haen yma'n ffurfio poced a'r tu mewn i'r poced yma mae sociwr microterry ynghlwm wrth y fflîs. O dan hwn mae pad gwrth-ddŵr cywarch sy'n fflapio allan o gefn y cewyn sy'n ei wneud yn gynt i'w sychu na chewynnau un-darn eraill. Mae Real Easies yn dod mewn 5 maint yn ffitio o 4 – 45+ pwys ac maen nhw ar gael mewn amrywiaeth o liwiau pastel. Mae'r prisiau'n dechrau o £11-99. www.babykind.co.uk

Cysylltwch â ni…

Os hoffech fwy o wybodaeth am unrhyw beth sydd wedi cael ei drafod yn y cylchlythyr hwn, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni neu ymweld â'n gwefan. Os ydych chi wedi trefnu unrhyw ddigwyddiadau yn eich ardal chi, rhowch wybod i ni a byddwn ni'n eu hychwanegu i'r wefan.

www.realnappies-wales.org.uk

0845 456 2477

recycle for Wales
ailgylchu dros Gymru
www.wasteawarenesswales.org.uk

Sustainable Wales
Cymru Gynhaliol